**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Ariannu Allanol

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 7 Mawrth 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Bu'r Cynghorydd C E Lloyd (Is-gadeirydd) yn llywyddu – Eitemau 1-7
Bu'r Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) yn llywyddu – Eitemau 8-13

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | W Evans | A S Lewis |
| J A Raynor | M Sherwood | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Chris Davies | Prif Bartner Ariannol (Pobl) |
| Alan Ferris | Uwch-beiriannydd |
| Ben George | Swyddog Strategaeth Cludiant |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Spencer Martin | Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol |
| Paul Relf | Rheolwr Cyllid Allanol |
| Sandie Richards | Prif Gyfreithiwr |
| Kelly Small | Head of Funding and Information Unit |
| Elliott Williams | Rheolwr Cyllid Allanol |
| Gaynor Winsor | Cyfrifydd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): R Francis-Davies a/ac D H Hopkins

---

## 36 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y cysylltiadau canlynol:

Datganodd y Cynghorydd M Sherwood gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 42 “Cronfa Compact Abertawe 2018/19” – fel aelod o Bwyllgor Rheoli Dinas Noddfa (Abertawe) a gadawodd y cyfarfod cyn iddo gael ei ystyried.

## 37 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Panel Ariannu Allanol a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2018 yn gofnod cywir.

## 38 Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod a Chodi Safonau - Cyllid Grant Llywodraeth Cymru.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes adroddiad i roi gwybod i'r panel am y bwriad i wneud cais am arian grant gan Lywodraeth Cymru i leihau maint dosbarthiadau babanod a chodi safonau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig grant newydd i awdurdodau lleol â'r nod o leihau maint dosbarthiadau babanod a chodi safonau. Bydd y ffocws ar ysgolion â dosbarthiadau o 29 o ddysgwyr neu fwy, a lle mae'r ysgolion yn dangos o leiaf un o'r canlynol neu gyfuniad ohonynt:

- Lefelau sylweddol o brydau ysgol am ddim;
- Deilliannau llai na'r cyfartaledd a lle bernir bod ysgol yn goch neu'n ambr (yn ôl categoreiddio rhanbarthol ERW);
- Lefelau sylweddol o anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol;
- Nifer sylweddol o blant nad yw'r Gymraeg/Saesneg yn iaith gyntaf iddynt.

Y cynnig arfaethedig yw sefydlu un sylfaen dosbarth newydd yn yr ysgolion canlynol gyda chyllid cyfalaf a refeniw cysylltiedig:

- Ysgol Gynradd Hendrefoilan (estyniad i ystafell ddosbarth);
- Ysgol Gynradd Penyrheol (gwaith ailfodelu mewnol);
- Ysgol Gynradd Sea View (estyniad bach a gwaith ailfodelu);
- YGG Bryniago (gwaith ailfodelu mewnol).

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cais am yr arian grant i Leihau Maint Dosbarthiadau Babanod a Chodi Safonau.

## 39 Cais am Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau Llywodraeth Cymru 2018/19.

Cyflwynodd y Peiriannydd Rheoli Traffig adroddiad i roi gwybodaeth am y cais am Grant Llwybrau Mwy Diogel mewn Cymunedau Llywodraeth Cymru 2018/19.

Mae'r fenter Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn gwella darpariaeth llwybrau cerdded a beicio mewn cymunedau, yn enwedig y tu allan i ysgolion ac o'u hamgylch. Nod hyn yw annog ffordd fwy cynaliadwy o fyw mewn cymunedau a mynd i'r afael â materion eithrio cymdeithasol.

Mae'r cais am gyllid yn cynnwys cynigion ar gyfer y 3 ardal ganlynol:

- Gŵyr;
- Gorseinon a Phenyrheol;
- Llangyfelach a Mynydd-bach.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cais am gyllid grant Llwybrau Mwy Diogel mewn Cymunedau Llywodraeth Cymru 2018/19 ac y dylai swyddogion dderbyn unrhyw ddyraniad a wneir yn unol â'r argymhellion canlynol:

a) Datblygu amgylcheddau cerdded a beicio mwy diogel yn ardal Gŵyr i adeiladu ar waith sydd eisoes yn cael ei wneud yn yr ardal;
b) Datblygu a chyflwyno amgylcheddau cerdded a beicio mwy diogel yn ardaloedd Gorseinon a Phenyrheol;
c) Datblygu a chyflwyno amgylcheddau cerdded a beicio mwy diogel yn ardaloedd Llangyfelach a Mynydd-bach.

## 40 Cais am Grant (Cyfalaf) Diolgelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru 2018/19.

Rhoddodd y Peiriannydd Rheoli Traffig wybodaeth am y cais am Grant Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru (Cyfalaf) 2018/19.

Mae'r Grant Diogelwch Ffyrdd (Cyfalaf) yn galluogi awdurdodau lleol ledled Cymru i wneud cais am gyllid â'r nod o gefnogi mentrau allweddol i helpu i gyflawni targedau lleihau damweiniau ffyrdd a nodwyd yn y Fframwaith Diogelwch Ffyrdd ar gyfer Cymru 2018. Yn benodol, mae'n ymdrechu i gyflawni'r targedau lleihau damweiniau canlynol:

- 40% yn llai o bobl yn cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru;
- 25% yn llai o yrwyr beiciau modur yn cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru;
- 40% yn llai o bobl ifanc (rhwng 16 a 24 oed) yn cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru.

Mae'r cais am gyllid yn cynnwys cynigion ar gyfer y 3 phrosiect canlynol:

- Diweddaru 4 camera diogelwch ffyrdd presennol a datblygu safleoedd gorfodi symudol;
- Cyflwyno mesurau diogelwch ffyrdd i hyrwyddo opsiynau teithio diogel yn ardal Portmead/Blaen-y-maes;
- Gwella cyffordd allweddol ar Heol y Trallwn.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cais am gyllid grant Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru (Cyfalaf) 2018/19 ac y dylai swyddogion dderbyn unrhyw ddyraniad a wneir yn unol â'r argymhellion canlynol:

a) Diweddaru 4 camera diogelwch ffyrdd presennol a datblygu safleoedd gorfodi symudol;
b) Cyflwyno mesurau diogelwch ffyrdd i hyrwyddo opsiynau teithio diogel yn ardal Portmead/Blaen-y-maes;
c) Gwella cyffordd allweddol ar Heol y Trallwn.

## 41 Cais am Grant (Refeniw) Diolgelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru 2018/19.

Cyflwynodd y Peiriannydd Rheoli Traffig adroddiad i roi gwybodaeth am y cais am Grant Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru (Refeniw) 2018/19.

Mae'r cais hwn am gyllid yn cynnwys cynigion am yr 8 menter addysg a hyfforddiant diogelwch ffyrdd ganlynol:

1. Kerbcraft – hyfforddiant cerddwyr i blant 5-7 oed (1,701 o leoedd am gyfanswm o £51,030);
2. Mega Drive – Hyfforddiant cyn-yrru i bobl ifanc 16-18 oed (100 o leoedd am gyfanswm o £2,600);
3. Rider Safe – Hyfforddiant beic modur i rai 16-24 oed ar gyfer defnyddwyr newydd mopedau a beiciau 2 olwyn pŵer isel (60 o leoedd am gyfanswm o £8,100);
4. Bikesafe – Asesiad beic modur i feicwyr ar ôl y prawf ar y cyd â Heddlu De Cymru (40 o leoedd am gyfanswm o £2,400);
5. Dragon Rider – Hyfforddiant beic modur DVSA ar gyfer beicwyr ar ôl y prawf (40 o leoedd am gyfanswm o £5,400);
6. Pass Plus Cymru – Hyfforddiant i yrwyr newydd gymhwyso 17-24 oed (110 o leoedd £15,180);
7. Hyfforddiant Beicio Safonau Cenedlaethol – Lefelau 1 a 2 ar gyfer disgyblion 10/11 oed a Lefel 3 ar gyfer beicwyr mwy profiadol 16+ oed (992 o leoedd am gyfanswm o £41,664);
8. Gyrru am Oes – Hyfforddiant gloywi i yrwyr 65+ oed (40 o leoedd am gyfanswm o £2,320).

Bu'r panel yn trafod a fyddai modd cynnwys Addysg Diogelwch Ffyrdd benodol mewn cynigion yn y dyfodol er mwyn addysgu rhieni/gwarchodwyr am faterion diogelwch penodol megis parcio diystyriol, e.e. ar linellau igam-ogam y tu allan i ysgolion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cais am Grant Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru (Refeniw) 2018/19 ac y dylai swyddogion dderbyn unrhyw ddyraniad a wneir yn unol â'r argymhellion canlynol:

a) Darparu addysg, hyfforddiant ac ymyriadau cyhoeddusrwydd ar ddiogelwch ffyrdd i helpu i leihau damweiniau mewn grwpiau defnyddwyr ffyrdd risg uchel a diamddiffyn fel a amlinellwyd yn yr adroddiad.

## 42 Cronfa Compact Abertawe 18/19.

Cyflwynodd Cydlynydd Comisiynu'r Trydydd Sector a Chronfeydd Ymddiriedolaeth adroddiad i benderfynu ar y cais gohiriedig i gyfres untro o gyllid gan Gronfa Compact Abertawe 2018/19.

Gohiriwyd y cais gan y Ddinas Noddfa er mwyn cael eglurhad ar nodau'r prosiect a'r canlyniadau arfaethedig. Clustnodwyd £7,500 - y swm llawn y gofynnwyd amdano - yn y gyllideb gan ddisgwyl am benderfyniad y panel.

Amlinellwyd y diweddariad, a oedd yn cynnwys mwy o wybodaeth am y prosiect ar gyfer 2018 ac a oedd yn cynnig targedau newydd, yn Atodiad B.

Cwestiynodd y panel rôl yr ymddiriedolwyr a'r Pwyllgor Rheoli a ph'un a oedd y rôl yn dyblygu'r hyn sydd eisoes yn cael ei ddarparu gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r** cais ar y ffigur llai, sef £5,000.

## 43 Grant Pwysau'r Gaeaf.

Cyflwynodd y Prif Bartner Ariannol (Pobl) adroddiad i roi gwybod i'r panel am ddyraniad cyllid mewn perthynas â chefnogi cyflwyniad y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod gaeaf 2017/18.

Dyrannodd Llywodraeth Cymru'r grant hwn yn uniongyrchol ac nid oedd rhaid i'r cyngor gyflwyno cais. Cynigiwyd dyraniadau i holl gynghorau Cymru. Roedd y cynnig ar gyfer £795,988 ac am y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2018.

Diben y cyllid yw cefnogi cyflwyniad y Gwasanaethau Cymdeithasol dros gyfnod gaeaf 2017-2018 drwy:

- Becynnau gofal cartref o 1 Ionawr i 31 Mawrth 2018;
- Gwasanaethau gofal a thrwsio ar gyfer addasiadau bach i gartrefi a chyfarpar i hwyluso rhyddhau pobl a'u helpu i gynnal annibyniaeth;
- Gofal preswyl tymor byr a defnydd o welyau gofal llai dwys i hwyluso rhyddhau a throsglwyddo o'r ysbyty i'r cartref.

**Penderfynwyd** y byddai'r panel yn nodi'r goblygiadau sydd yn yr adroddiad ac, yn dilyn hynny, **gymeradwyo** derbyn y grant.

## 44 Trafnidiaeth Leol a Chais Cronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol 2018/19.

Cyflwynodd y Swyddog Strategaeth Cludiant adroddiad i gymeradwyo'r cais am gyllid gan y Gronfa Drafnidiaeth Leol 2018/19.

Cyflwynwyd cais am gyllid i'r Gronfa Trafnidiaeth Leol a Chronfa'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Lleol (LTF ac LTNF) i Lywodraeth Cymru ar 25 Ionawr 2018 yn unol ag arweiniad gan Lywodraeth Cymru.

Cyflwynodd Dinas a Sir Abertawe bedwar cais - cyfanswm o £3.388 miliwn - ac roedd yn aros am gyhoeddiad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru o ran pa gynlluniau fyddai'n cael eu hariannu'r rhannol neu'n llawn. Amlinellwyd y cynlluniau a swm eu ceisiadau, a oedd yn cynnwys:

- Metro De-orllewin Cymru (LTF);
- Ffordd Fabian (Pont Baldwin) (LTF);
- Datblygu'r Cynllun Teithio Llesol (LTF);
- Coridorau Bysus Strategol (LTNF).

**Penderfynwyd** y byddai'r panel yn **cymeradwyo'r** cais am gyllid i'r Gronfa Drafnidiaeth Leol 2018/19.

**45 Amgueddfa Abertawe - Cronfa Drawsnewid Llywodraeth Cymru 18/19.**

**Penderfynwyd** gohirio'r eitem i gyfarfod nesaf y Panel Ariannu Allanol.

**46 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r panel wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodwyd ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y panel Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle roedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol, fel a nodwyd yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**47 Trosolwg o'r Ceisiadau Presennol a'r Rhai Sydd ar Ddod am Arian Ewropeaidd ac Allanol.**

Rhoddwyd diweddariad ar geisiadau Ewropeaidd presennol ac arfaethedig a cheisiadau allanol eraill gan y Rheolwr Ariannu Allanol:

- Brexit a Pholisi Rhanbarthol y Dyfodol;
- Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) 2014-2020;
- Cronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE) 2014-2020;
- Cronfeydd Allanol Eraill.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.51 pm

**Cadeirydd**